# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Woodlee - Gofal byrdymor**

**Bwcle**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Woodlee - Gofal byrdymor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cyngor Sir y Fflint |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb


Mae Woodlee yn darparu gwasanaeth gofal byrdymor, gan gynnig gofal seibiant i bobl a'u gofalwyr. Mae'r bobl yn edrych ymlaen at eu hymweliadau, a gall eu perthnasau fod yn sicr y byddant yn cael eu cefnogi'n dda. Gall y bobl gynnal eu trefn arferol yn ystod eu harhosiad. Gallant ddisgwyl amgylchedd sy'n gyfeillgar a chroesawgar. Mae'r staff cymorth yn paratoi ar gyfer ymweliad pob unigolyn, i sicrhau bod croeso cynnes yn cael ei roi iddynt. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r adeilad yn gyfforddus ac yn gartrefol.  Mae digon o le a chyfarpar arbenigol ar gael, ac mae hyn yn sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bobl â phroblemau symudedd. Mae gardd gyfforddus y gellir ei chyrraedd drwy ddrysau patio, ac mae cynhwysydd plannu yno sydd wedi cael ei gomisiynu'n arbennig a'i greu gan y bobl.

Mae'r tîm rheoli yn ymweld yn rheolaidd er mwyn siarad â'r bobl a'r staff cymorth, ac i adolygu'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis. Roedd y mater hwn yn faes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf, sydd bellach wedi cael ei gyflawni.

## Llesiant

Mae'r staff cymorth yn sicrhau y caiff y bobl wneud dewisiadau am beth yr hoffent ei wneud yn ystod eu harhosiad.  Gallant barhau i gymryd rhan yn eu gweithgareddau arferol yn y gymuned leol os dymunant wneud hynny.  Mae rhai o'r bobl yn trin eu harhosiad fel gwyliau oddi wrth eu bywydau bob dydd ac yn hoff o wneud pethau gwahanol yn ystod eu cyfnod i ffwrdd. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym fod y gwasanaeth yn darparu seibiant, nid yn unig i'r gofalwyr, ond i'r bobl hefyd.  Dywedodd un perthynas wrthym fod ei anwylyd yn edrych ymlaen at ei ymweliadau a'i fod bob amser yn awyddus i aros yno.  Dywedodd wrthym ei fod wedi gallu defnyddio'r gwasanaeth mewn argyfwng gan ei ddisgrifio fel "*a real help*" a "*great*".

Gall y bobl gynllunio'r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod eu harhosiad.  Mae cerbyd ar gael er mwyn mynd â'r bobl ar deithiau o'u dewis yn y gymuned leol, fel bowlio, mynd i'r sinema neu siopa.  Yn anffodus, nid yw'r cerbyd wedi cael ei addasu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio mynd i'r afael â hyn, gan y byddai hyn yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n ymweld â'r cartref yn cael yr un cyfleoedd i fynd ar deithiau.  Gall y bobl ddewis beth yr hoffent ei fwyta, ac maent yn cynllunio eu bwydlen am y dydd gyda'r staff cymorth.  Mae'r rheolwr yn bwriadu cyflwyno rhai newidiadau er mwyn sicrhau y caiff opsiynau iach eu cynnig yn rhagweithiol i'r bobl.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn ymweld â'r gwasanaeth.  Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff cymorth sy'n eu hadnabod yn dda ac yn eu hannog i gynnal eu harferion dyddiol.  Gwelsom achosion o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff cymorth a'r bobl drwy gydol ein hymweliad.  Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym fod y staff cymorth yn trin y bobl mewn modd hyfryd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.  Gall rhai aelodau o'r staff siarad Cymraeg, ac mae'n bosibl i'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth gael staff cymorth sy'n siarad Cymraeg yn ystod rhywfaint o'u hamser yn y gwasanaeth.  Caiff y staff cymorth fynediad at gyrsiau iaith Cymraeg yn ogystal â grŵp sgwrsio.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol. Mae ganddynt gynllun personol ar waith sy'n ystyried eu dewisiadau ac yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys lefel dda o fanylion am sut yr hoffai'r bobl gael eu gofal a'u cymorth. Mae'r staff cymorth yn dilyn y cynlluniau hyn er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r staff cymorth yn ymgynghori â'r bobl a'u teuluoedd cyn pob ymweliad â'r gwasanaeth, er mwyn holi am unrhyw newidiadau a chadarnhau eu dewisiadau ar gyfer eu hymweliad. Caiff unrhyw newidiadau eu cofnodi, a chânt eu rhannu â'r tîm o staff. Mae'r tîm rheoli wedi dyrannu gweithiwr allweddol i bob unigolyn yn ddiweddar ac mae'r gweithiwr allweddol hwn yn mynd i gyfarfodydd adolygu ac yn nodi unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r unigolyn.

Gall y bobl fod yn sicr y bydd eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu yn ystod eu harhosiad. Mae'r staff cymorth yn dilyn cyngor iechyd gan weithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau y caiff anghenion iechyd a gofal dyddiol arferol y bobl eu diwallu. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, a bod y bobl sy'n mynychu'r gwasanaeth yn mwynhau eu hymweliadau.

Mae'r staff cymorth yn sicrhau y caiff arferion hylendid da eu dilyn er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel rhag y risg o haint. Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus ym mhob rhan ohono, a bod rota glanhau ar waith. Gwelsom gyflenwadau o gyfarpar diogelu personol ar gyfer y staff cymorth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion pobl â phroblemau symudedd. Mae digon o le i bobl â chymhorthion symudedd neu gadeiriau olwyn. Gallant ddefnyddio cyfarpar arbenigol, fel teclynnau codi o'r nenfwd a lifftiau i'r bath a gaiff eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae canllawiau cydio ym mhob rhan o'r adeilad er mwyn helpu'r bobl i symud o gwmpas yn annibynnol.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus i'r bobl sy'n aros yno. Gall y bobl ymlacio a chymdeithasu mewn lolfa ac ystafell fwyta fawr yn ystod amser bwyd. Gallant hefyd fynd i'r ardd dwy'r drysau patio. Mae cynhwysydd plannu llysiau uchel yn yr ardd a gafodd ei greu gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn fawr a gallant ddod â rhywfaint o'u heiddo eu hunain gyda nhw i'w helpu i ymgartrefu yn ystod eu harhosiad. Caiff lluniau o'r bobl yn mwynhau eu hymweliad eu harddangos ochr yn ochr ag eitemau crefft y mae rhai ohonynt wedi'u creu.

Mae'r tîm rheoli a'r staff gofal yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau diogelwch trydanol a nwy cyfredol. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau, a chaiff senarios eu trafod mewn cyfarfodydd tîm. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn glir am sut i adael yr adeilad pe bai tân. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng sy'n glir i'r staff cymorth eu dilyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r rheolwr, y dirprwy reolwr a'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn rhedeg yn ddidrafferth.  Mae'r dirprwy reolwr yn cynnal ymweliad archwilio wythnosol er mwyn arolygu'r safle ac adolygu'r cofnodion meddyginiaeth a ffeiliau unigol. Mae'r archwiliadau hyn yn helpu i nodi unrhyw faterion er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau gweithredu priodol.  Gall hyn gynnwys trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm misol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis o leiaf ac yn llunio adroddiad ar sut mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion y bobl.  Mae'r adroddiad hwn yn ystyried safbwyntiau'r bobl a'r staff ac unrhyw gamau gweithredu y gellid eu cymryd i wella'r gwasanaeth.  Dywedodd y staff cymorth wrthym eu bod yn mwynhau eu rolau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli.

Mae'r staff gofal yn fedrus ac yn meddu ar gymwysterau addas ar gyfer eu rolau.  Caiff gwiriadau recriwtio, fel gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a gwiriadau geirdaon eu cwblhau ar gyfer aelodau newydd o staff.  Mae'r rheolwr wedi rhoi system newydd ar waith i fonitro hyfforddiant a goruchwyliaeth y staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gyfredol.  Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cael sesiynau goruchwylio yn ddiweddar neu'n cwblhau'r broses sefydlu.  Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant craidd yn gyfredol ar gyfer y staff gofal.  Dywedodd y rheolwr wrthym ei bod yn anodd cael gafael ar hyfforddiant diogelu, ac mae rhai bylchau mewn perthynas â'r hyfforddiant gloywi oherwydd hyn. Mae'n ymwybodol bod angen mynd i'r afael â hyn ac yn ystyried opsiynau eraill, fel hyfforddiant ar-lein neu asesiadau cymhwysedd hyd nes y bydd lleoedd ar gael ar y cwrs hyfforddiant diogelu llawn.  Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod y staff cymorth a gaiff eu dyrannu i'r bobl wedi ymgymryd â'r hyfforddiant arbenigol i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a bod y bobl yn gallu cael gafael ar y pethau sy'n gwneud eu harhosiad yn un cyfforddus. Mae'n parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth, a gwelsom yn ystod ein hymweliad fod y safle wedi cael ei ailaddurno yn ddiweddar.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 73 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth o leiaf unwaith bob 3 mis. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/06/2024